| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 22 Hydref 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Alan James, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Lleol a Thai |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr adroddiad** | Glesni Owen, Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd |
| **Teitl** | Darpariaethau Codi Ffioedd ac Awdurdod Dirprwyedig - Cynllun Trwyddedu Gorfodol ar gyfer Triniaethau Arbennig |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â gosod strwythur ffioedd priodol a chynllun awdurdod dirprwyedig ar gyfer Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") ar gyfer Trwyddedu Gorfodol Triniaethau Arbennig. Mae'r gweithgareddau sy'n rhan o Drwyddedu Gorfodol Triniaethau Arbennig wedi eu hamlinellu yn Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu'r strwythur ffioedd a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer y Cynllun Trwyddedu Gorfodol Triniaethau Arbennig newydd sy'n dod i rym ar 29 Tachwedd 2024 yn unol â Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017.

2.2. I'r Cabinet ddirprwyo pwerau yn y Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 i Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn mabwysiadu'r strwythur ffioedd a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer y Cynllun Trwyddedu Gorfodol Triniaethau Arbennig fel nodir yn Nhabl 1 Atodiad 2.

3.2. Bod y Cabinet yn dirprwyo'r swyddogaethau o dan y Rheoliadau newydd i'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad.

3.3. Bod y Cabinet yn awdurdodi Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad i ddiwygio'r ffioedd a'r taliadau yn unol â'r cynllun statudol, fel bo'n briodol, o hyn ymlaen.

3.4. Bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4) fel rhan o'u hystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r fframwaith deddfwriaethol gyfredol ar gyfer Triniaethau Arbennig yn annigonol. Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982") yw'r prif fodd o orfodi safonau yn y sector hwn trwy ddefnyddio cynllun cofrestru. Fodd bynnag, mae'r dewis i awdurdodau lleol fabwysiadu'r cynllun hwn yn wirfoddol ac ni all y rhai sydd wedi ei fabwysiadu wrthod cofrestru'r unigolyn neu eiddo oni bai eu bod wedi eu cael yn euog o drosedd o dan Ran VIII o Ddeddf 1982. Yn bwysig, nid yw Deddf 1982 yn nodi bod angen 'prawf cynhwysedd' ar gyfer y rhai sy'n gwneud y triniaethau i ddangos gwybodaeth briodol am hylendid a rheoli heintiau.

4.2. Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Mae Rhan 4 y Ddeddf yn nodi cynllun trwyddedu gorfodol i ymarferwyr sy'n gwneud 'triniaethau arbennig' yng Nghymru.

4.3. Bwriad y cynllun trwyddedu yw gwella a chynnal safonau atal a rheoli haint yn y diwydiant triniaethau arbennig a sicrhau iechyd a diogelwch cleientiaid ac ymarferwyr.

4.4. Mae Adran 76 a Rhan 4 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 yn caniatáu i awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno Trwydded Triniaethau Arbennig neu Dystysgrif Safleoedd Cymeradwy i godi ffi. Dylid penderfynu ar y ffi sydd i'w chodi gan yr awdurdod lleol trwy ystyried y costau a ysgwyddir neu'r costau y disgwylir y bydd yr awdurdod yn eu hysgwyddo. Cafodd y ffioedd cenedlaethol ar gyfer ceisiadau newydd a ffioedd adnewyddu eu cymeradwyo gan Gyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd (CGC) yn Nhachwedd 2023, cafodd yr amrywiad a ffioedd eraill eu cymeradwyo gan CGC yn Awst 2024. CGC yw'r sefydliad ar y cyd o swyddogion sy'n gyfrifol am arwain gwasanaethau gwarchod y cyhoedd awdurdodau lleol. Yn unol â'r rheoliadau bydd y ffioedd hyn yn cael eu hadolygu ar y cyd ar ôl blwyddyn o'u gweithredu ac yna ar ddiwedd bob cyfnod o dair blynedd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae strwythur ffioedd a gytunwyd yn genedlaethol yn sicrhau cysondeb costau i fusnesau a allai fod yn weithredol o fewn yr awdurdod hwn a thu hwnt. Mae'r cynllun newydd yn sicrhau tegwch i bob busnes sy'n gwneud triniaethau arbennig.

5.2 Sicrhau ein bod yn adennill ein costau wrth weithredu'r cynllun trwyddedu newydd a bod pwerau yn cael eu dirprwyo i'r Swyddogion mwyaf priodol sy'n wybodus ac wedi eu hyfforddi ar gyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd hon.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r ffioedd cenedlaethol ar gyfer y cynllun trwyddedu newydd wedi eu cyfrifo yn seiliedig ar egwyddorion adennill costau. Yn unol â'r rheoliadau bydd y ffioedd hyn yn cael eu hadolygu ar y cyd ar ôl blwyddyn o'u gweithredu ac yna ar ddiwedd bob cyfnod o dair blynedd. Gellir addasu'r ffioedd trwydded pan fo diffyg neu warged.

6.2. Bydd y gwaith yn rhan o adnoddau presennol yng Ngwarchod y Cyhoedd ac ni fydd unrhyw effaith ar wasanaethau eraill.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn caniatáu i awdurdodau lleol godi ffi ar y busnesau a'r unigolion hynny sy'n dymuno gwneud triniaethau arbennig. Mae'r ffioedd hyn yn cael eu codi ar sail adennill costau a byddant yn cael eu hadolygu mewn 12 mis i sicrhau fod y ffioedd hynny yn gymesur â'r gwaith a wneir i weithredu'r cynllun. Gallai busnesau ac unigolion a effeithir gan y ddeddfwriaeth newydd benderfynu stopio gwneud y triniaethau hyn, fodd bynnag gallai hyn gynyddu busnes i eraill yn y sector.

7.2. Gallai gynyddu nifer y safleoedd/ymarferwyr heb drwydded a allai gynyddu'r angen ar gyfer ymyrraeth orfodi.

7.3. Swyddogion yn cael awdurdod priodol i gymryd camau gorfodi fel bo angen

7.4. Gwella safonau mewn busnesau cyfredol a busnesau newydd.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae ffioedd ar gyfer y drefn trwyddedu triniaethau arbennig wedi eu cyfrifo gan y Grŵp Gweithredu Triniaethau Arbennig a'u cymeradwyo gan Gyfarwyddwr Diogelu'r Cyhoedd Cymru i'w cyflwyno'n gyson gan awdurdodau lleol ledled Cymru.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel nodir yn yr adroddiad mae'r strwythur ffioedd diwygiedig wedi ei ddylunio i sicrhau cysondeb o ran costau i fusnesau, ond hefyd egwyddorion adennill costau ar gyfer awdurdodau lleol yn unol â'n polisi ffioedd a thaliadau ein hunain. Bydd yn bwysig adolygu incwm a chostau ar ôl y flwyddyn gyntaf ac i fwydo'r wybodaeth i'r adolygiad cenedlaethol o ffioedd.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Y risg y gallai costau trwyddedu wneud i rai ymarferwyr benderfynu peidio â gwneud triniaethau arbennig os yw'r gost yn fwy na'r incwm o'r triniaethau hynny.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Adran 76 a Rhan 4 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 yn caniatáu i awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno Trwydded Triniaethau Arbennig neu Dystysgrif Safleoedd Cymeradwy i godi ffi

11.2. Adran 13 Deddf Llywodraeth Leol (2000), swyddogaeth weithredol y Cabinet i ddirprwyo pwerau.